OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1099

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "corff perthnasol" ("*relevant body*") yw—

(a) Cyngor y Gweithlu Addysg(**1**);

(b) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon(**2**);

(c) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban(**3**);

(d) y Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth(**4**);

(e) corff sy'n gyfrifol am reoleiddio proffesiwn y mae adran 60 o Ddeddf Iechyd 1999(**5**) (rheoleiddio proffesiynau iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal eraill etc.) yn gymwys iddo(**6**);

(f) corff y tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a fyddai, yng Nghymru, yn cael eu rheoleiddio gan GCC(**7**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "mater" ("*matter*") yw'r pwnc neu'r pwynt y mae panel a sefydlir o dan adran 174(1) o'r Ddeddf yn arfer unrhyw swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef;

mae i "paneli addasrwydd i ymarfer" ("*fitness to practise panels*") yr ystyr a roddir yn adran 174(1)(b) o'r Ddeddf;

mae i "paneli apelau cofrestru" ("*registration appeals panels*") yr ystyr a roddir yn adran 174(1)(a) o'r Ddeddf;

mae i "paneli gorchmynion interim" ("*interim orders panels*") yr ystyr a roddir yn adran 174(1)(c) o'r Ddeddf;

mae i "person cofrestredig" ("*registered person*") yr ystyr a roddir yn adran 164 o'r Ddeddf.

---

(**1**) Mae Cyngor y Gweithlu Addysg wedi ei sefydlu yn unol ag adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5).

(**2**) Mae Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon wedi ei sefydlu yn unol ag adran 1 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001 (p. 3).

(**3**) Mae Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban wedi ei sefydlu yn unol ag adran 43 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001 (dsa 8).

(**4**) Mae'r Coleg Cenedaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn un o asiantaethau gweithredol yr Adran Addysg.

(**5**) 1999 p. 8.

(**6**) Y cyrff hyn yw—
(i) y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol,
(ii) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol,
(iii) y Cyngor Meddygol Cyffredinol,
(iv) y Cyngor Optegol Cyffredinol,
(v) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol,
(vi) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol,
(vii) y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal,
(viii) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

(**7**) *Gweler* adran 67(3) o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "GCC".

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*